

Y Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 11.00am ar 16 Gorffennaf
2020 Cynhaliwyd y cyfarfod dros Microsoft Teams

Yn bresennol ac ymddiheuriadau: Gweler y rhestrau atodedig

Croeso a chyflwyniadau: Esboniodd Jenny Rathbone AS (Cadeirydd) fod Huw Irranca-Davies AS wedi gofyn iddi gadeirio'r cyfarfod gan fod yn rhaid iddo fynd i gyfarfod y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a drefnwyd ar ôl i'r cyfarfod Grŵp Trawsbleidiol hwn gael ei drefnu. Croesawodd y cyfranogwyr i'r cyfarfod ac esboniodd sut i ddefnyddio'r cyfleusterau amrywiol ar Teams.

Trafodaeth ar "Creu Lleoedd a Theithio Llesol" gyda'r Gweinidog sy'n gyfrifol am y system gynllunio yng Nghymru: Julie James AS, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Croesawodd y Cadeirydd Julie a'i swyddogion, Max Hampton a Jon Fudge, a gwahoddodd Julie i siarad. Amlinellodd y Gweinidog sut mae hi'n hyrwyddo teithio llesol fel rhan annatod o greu lleoedd o fewn y polisi cynllunio. Roedd hi newydd gyhoeddi'r Siarter Creu Lleoedd yn atgoffa awdurdodau lleol o bwysigrwydd creu lleoedd wrth ddelio â Covid: <https://llyw.cymru/polisi-cynllunioadferiad-covid-19>. Y cwestiwn sylfaenol wrth gynllunio yw: "a yw hwn yn lle yr hoffwn fyw ynddo?". Roedd hi wedi ymrwmo i gyflymu'r gwaith o weithredu'r egwyddorion ym Mholisi Cynllunio Cymru a chryfhau rôl Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol.

Yn y cwestiynau a'r drafodaeth a gafwyd yn dilyn hynny, gwnaed y pwyntiau allweddol hyn:

Pwysigrwydd annog **teithio iach i'r ysgol**: mae gwaith yn mynd rhagddo ar newidiadau i drafnidiaeth ysgol, mae angen archwilio mater dalgylchoedd.

Rôl awdurdodau lleol: mae newid diwylliant mewn cynghorau yn anodd, mae'n bwysig ennill calonnau a meddyliau, rhaid cael rhywfaint o gonsensws cyn y gall newid go iawn ddigwydd; mae gan lawer o adrannau cynllunio awdurdodau lleol ddiffyg adnoddau, mae'r Gweinidog yn edrych i gynyddu ffioedd i ddarparu ffynhonnell incwm wedi'i neilltuo, byddai gweithio rhanbarthol yn helpu i gyfuno adnoddau a chryfhau'r system gynllunio, gan obeithio eu galluogi i wrthsefyll datblygwyr yn fwy effeithiol; dylai'r gallu newydd i nodi cynlluniau ar gyfer gwasanaethau yn iawn ei gwneud hi'n haws negodi cytundebau S106 gwell.

Creu lleoedd sy'n gofyn am arddull wahanol o weithio, trafod syniadau yn hytrach na chymhwysio safonau yn anhyblyg, mae hyn yn gofyn am fwy o amser nag y mae llawer o awdurdodau lleol a datblygwyr yn barod i'w ganiatáu.

Seilwaith trafnidiaeth gynaliadwy: dylai fod ar gael i drigolion datblygiadau newydd ar yr un amser â'r ffordd: mae gan awdurdodau lleol bwerau i fynnu hyn. Pwysigrwydd integreiddio'r Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol o fewn Cynlluniau Datblygu Lleol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Gweinidog am ei chyfraniad ysgogol at y cyfarfod.

20 yn Ddigon

Rhoddodd Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth y wybodaeth ddiweddaraf am waith y grŵp gorchwyl 20mya. Roedd yn falch iawn bod consensws trawsbleidiol bellach ynghylch yr angen am derfyn 20mya diofyn. Canmolodd waith y grŵp gorchwyl, ac fe ellir gweld ei adroddiad yma:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-07/adroddiad-grp-tasglu-20mya.pdf> A'r sylfaen dystiolaeth yma:

<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-08/the-state-of-the-evidence-on-20mphspeed-limits-with-regards-to-road-safety-active-travel-and-air-pollution-impacts-august-2018.pdf> Roedd yn rhwystredig y byddai'r gwaith gweithredu yn cymryd amser, ond roedd yn hanfodol bod yn rhaid dilyn y prosesau cywir.

Teithio Llesol a Maniffestos 2021

Cytunwyd yn y cyfarfod blaenorol y dylai'r Grŵp Trawsbleidiol geisio cydlynu set o bolisiau yn dweud y gellid gofyn i bleidiau gwleidyddol eu cynnwys yn eu maniffestos. Mae e-bost i'r perwyl hwnnw wedi'i anfon at yr holl brif sefydliadau sydd â diddordeb mewn teithio llesol, yn gofyn iddynt ymateb erbyn diwedd mis Gorffennaf. Anogir cyrff cysylltiedig ac unigolion sydd â diddordeb i gyflwyno unrhyw awgrymiadau sydd ganddynt. Mae'r Grŵp Trawsbleidiol yn trefnu cyfleoedd i drafod y cynigion a gyflwynwyd gyda'r bwriad o baratoi dogfen gonsensws erbyn diwedd mis Hydref fan bellaf.

Diweddariad ar weithredu darpariaethau'r Ddeddf Teithio Llesol ar waith stryd a phrifyrdd newydd.

Mae Cadeirydd ac Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol wedi bod yn gweithio gyda'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb am deithio llesol i weithredu dwy o ddarpariaethau allweddol y Ddeddf Teithio Llesol o'r diwedd: y gofyniad i wella'r ddarpariaeth i gerddwyr a beicwyr wrth adeiladu neu gynnal prifyrdd; a'r gofyniad i roi ystyriaeth briodol i anghenion cerddwyr a beicwyr pan fydd gwaith stryd yn tarfu ar ffyrdd neu lwybrau. Ryw saith mlynedd ers pasio'r Ddeddf mae'r ddwy ddarpariaeth hyn yn dal i gael eu hanwybyddu'n eang. Mae peth cynnig yn cael ei wneud. Mae set newydd o ganllawiau ar gyfer adeiladu cefnffyrdd newydd yn cael eu drafftio ac mae'n ymddangos eu bod yn cynnwys darpariaethau teithio llesol llawer cryfach. Mae yna hefyd set arall o ganllawiau sy'n cael eu paratoi ar sut y dylai contractwyr ddarparu ar gyfer cerddwyr a beicwyr wrth wneud gwaith ffordd. Roedd copi o'r canllawiau hyn newydd fod ar gael i swyddogion y Grŵp Trawsbleidiol ac ar yr olwg gyntaf roedd yn ymddangos yn welliant. Fodd bynnag, roedd angen o hyd i ddod â'r prif ganllaw ar gyfer contractwyr, y 'Llyfr Coch', yn unol â'r Ddeddf Teithio Llesol. Bydd y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd yn rhoi gwybod i'r aelodau am y cynnydd.

Llythyr at y Prif Weinidog

Atgoffwyd yr aelodau bod y llythyr drafft at y Prif Weinidog, y cytunwyd arno yn y cyfarfod diwethaf, wedi'i ddsbarthu a dylai'r sefydliadau neu'r aelodau etholedig hynny sy'n dymuno ychwanegu eu llofnodion ymateb i'r Ysgrifennydd cyn gynted â phosibl.

Gan nad oedd unrhyw fater pellach, diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am gymryd rhan a daeth â'r cyfarfod i ben.

Yn bresennol

Enw cyntaf	Cyfenw	Sefydliad
Anne	Adams-King	Beicio Cymru
Ken	Barker	Cycling UK
Andrew	Bettridge	John Griffiths AS
Rebecca	Brough	Y Cerddwyr
Lindsey	Brown	Cyngor Caerdydd
Richard	Brunstrom	Cycling UK Gogledd Cymru
Neil	Canham	Sustrans Cymru
Dan	Coast	Casnewydd Community Cycling
Warren	Davies	Ymgyrch Beicio Wrecsam
Duncan	Dollimore	Cycling UK
Siân	Donovan	Pedal Power
Cyng Ryland	Doyle	Mike Hedges AS
Richard	Evans	Hyfforddiant Beicio Cymru
Catherine	Floyd	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Jon	Fudge	Llywodraeth Cymru
Matthew	Gilbert	Trafnidiaeth Cymru
Nick	Guy	Wheelwrights
Max	Hampton	Llywodraeth Cymru
Stephen	Hughes	Lee Waters AS
Julie	James AS	Llywodraeth Cymru
Margaret	Jones	Cardiff Cycle City
Cyng Mike	Jones-Pritchard	Cyngor Caerdydd
Richard	Keatinge	Beicio Bangor
Hugh	Mackay	Cycling UK Bro Morgannwg
John	Mather	Cycling UK (Gogledd Cymru)
Mathew	Norman	British Lung Foundation

Gwenda	Owen	Cycling UK
Emma	Parsons	Cyngor Caerdydd
Jenny	Rathbone AS	Senedd Cymru
Cyng Mia	Rees	Suzy Davies AS
Chris	Roberts	Ysgrifennydd Grŵp Trawsbleidiol Deddf Teithio Llesol
John	Sayce	Wheelwrights
Phil	Snaith	Fforwm Beicio Sir Gaerfyrddin
Lee	Waters AS	Llywodraeth Cymru
Cyng Caro	Wild	Cyngor Caerdydd
Patrick	Williams	Sustrans Cymru

Ymddiheuriadau:

Russell George AS, John Griffiths AS, Llyr Gruffydd AS, Mike Hedges AS,
Huw Irranca-Davies AS. David Naylor